


LLANDAFF CATHEDRAL
EGLWYS GADEIRIOL LLANDAF



Gwasanaeth ar gyfer y rhai sy'n ymwneud â
gweinyddu cyfiawnder

Dydd Sul y 8^{fed} o Hydref 2023
11.30am

CROESO

Croeso i Eglwys Gadeiriol Llandaf. Yn y gwasanaeth hwn, byddwn yn dathlu ac yn rhoi diolch i'r rhai hynny sydd yn gweithio ym myd gweinyddiaeth y gyfraith a chyfiawnder yn Nhalaithe Cymru. Bu'r Gadeirlan hon yn safle addoliad ers dros 1,500 o flynyddoedd a phleser gennym eich croesawu yma heddiw.

*Mae popeth sydd arnoch ei angen er mwyn dilyn y gwasanaeth i'w gael yn y llyfryn hwn. Ymunwch wrth i ni ganu'r emynau yn ogystal â'r print **bras**. Mae'r cyfarwydddebau yn y gwasanaeth sy'n cyfeirio at bryd i godi ac eistedd er awgrym yn unig. Teimlwch yn rhydd i'w dilyn yn ôl eich gallu. Os ydych yn fwy cyffyrddus ar eich eistedd drwy gydol y gwasanaeth, teimlwch yn rhydd i wneud hynny.*



Mae system dolen glyw ar gael yn y Gadeirlan i ddefnyddwyr tecylnnau cymorth clyw. Dylai defnyddwyr droi eu tecylnnau cymorth clyw i'r gosodiad T.



*Ceir fersiwn **print bras** o'r llyfryn hwn. Gofynnwch i stiward am gopi.*



Gofynnir i chi sicrhau bod eich ffôn symudol neu unrhyw declyn cyfathrebu cludadwy arall wedi'i osod ar ddistaw. Gofynnir yn garedig i chi beidio a chymeryd ffotograff na recordiad sain neu fideo yn y gadeirlan ar unrhyw adeg yn ystod y gwasanaeth.

TREFN Y GWASANAETH

‡ *Pawb i sefyll wrth i Orymdaith yr Eglwys Gadeiriol ddod i mewn drwy'r drws Gorllewinol.*

‡ *Pawb i ganu wrth i'r orymdaith ddod i mewn:*



Love divine, all loves excelling,
Joy of heaven to earth come down,
Fix in us thy humble dwelling,
All thy faithful mercies crown.
Jesu, thou art all compassion
Pure, unbounded love thou art;
Visit us with thy salvation,
Enter every trembling heart.

Come, almighty to deliver,
Let us all thy grace receive;
Suddenly return, and never,
Never more thy temples leave.
Thee we would be always blessing,
Serve thee as thy hosts above,
Pray, and praise thee, without ceasing,
Glory in thy perfect love.

Finish then thy new creation,
Pure and spotless let us be;
Let us see thy great salvation,
Perfectly restored in thee:
Changed from glory into glory,
Till in heaven we take our place,
Till we cast our crowns before thee,
Lost in wonder, love, and praise!

Geiriau: Charles Wesley (1707-88)

Cerddoriaeth: BLAENWERN
William Penfro Rowlands (1860-1937)

‡ *Offrymir gair o groeso gan y Tra Pharchedig Richard Peers, Deon Llandaf.*

‡ *Arhoswch ar eich traed tra bod y Deon yn traddodi'r Weddi Anerch:*

Ar ddechrau'r flwyddyn gyfreithiol, fe ddown ynghyd ym mhresenoldeb y Duw Hollalluog, barnwr pawb, a'r un sy'n gwybod holl gyfrinachau ein calonnau, i adnewyddu ein hymrwymiad i wasanaethu'r Goron, a'r holl bobl ym mhlaid cyfiawnder.

Yr ydym yn cydnabod ar y cyd ein galwad ysbrydol, ymrwymiad cyffredin i gyfiawnder y gallwn oll ei gydnabod, a weinyddir heb ofn na ffafr, hoffter na drwgdeimlad. Ceisiwn nerth ac arweiniad Duw i aros yn ffyddlon i'r traddodiadau cyfreithiol uchaf, yn graff wrth ymdrin â'r materion a ddaw ger ein bron ac yn ddoeth wrth i ni ddyllanwadu ar ddatblygiad y gyfraith.

Gweddiwn dros y Gwir Anrhydeddus Alex Chalk, yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder, y Gwir Anrhydeddus y Fonesig Sue Carr, Arglwyddes Brif Ustus Cymru a Lloegr, a phawb sy'n gwneud ac yn gweinyddu cyfiawnder yma yng Nghymru a gweddill y Deyrnas Unedig, ac mewn awdurdodaethau cyfreithiol eraill a gynrychiolir yma heddiw.

Yn y man cysegredig hwn, gofynnwn i Dduw ein cynnal yn ein bywyd a'n gwaith, a rhoi inni ostyngeddrwydd a barn gadarn. Gofynnwn iddo faddau ein camgymeriadau, a'n hysbrydoli wrth inni wasanaethu. Yma ar y ddaear, boed inni wasanaethu'n ffyddlonach y cyfiawnder nefol, yn yr hwn yn unig y gallwn ymddiried yn y pen draw.

Gadewch i ni weddïo yn ein hiaith ein hunain, gan ddeisyf gras Duw cyflwynwn ein gweddïau yn y geiriau a ddysgwyd i ni gan Iesu:

Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd,
sancteiddier dy enw,
deled dy deyrnas,
gwneler dy ewylllys;
megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd.
Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol
a maddau i ni ein dyledion,
fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr.
Ac nac arwain ni i brofedigaeth,
eithr gwared ni rhag drwg.
Canys eiddot ti yw'r deyrnas,
a'r gallu, a'r gogoniant,
yn oes oesoedd. Amen.

Gadewch i ni gyffesu ein pechodau, a gofyn am drugaredd a maddeuant ein Tad:

Pawb Cyffeswn i Dduw Hollalluog, Y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân, ein bod wedi pechu ar feddwl, gair, a gweithred. Nid ydym wedi gwneud y pethau hynny y dylem fod wedi eu gwneud, ac rydym wedi gwneud pethau na ddylem fod wedi eu gwneud. Gan hynny gweddïwn ar i Dduw drugarhau wrthym. Yr Hollalluog Dduw a drugarhao wrthym; maddau i ni, a'n gwaredu oddi wrth ein holl bechodau; ein cadarnhau a'n nerthu ym mhob daioni; a'n dwyn i fywyd tragwyddol; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen

Boed i'r Hollalluog Dduw, sy'n maddau i bawb sy'n wir edifeiriol, drugarhau wrthy ch a'ch rhyddhau o bechod, eich cadarnhau mewn daioni a'ch cadw yn y bywyd tragwyddol; trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

Pawb Amen.

CYHOEDDI'R GAIR

‡ *Eisteddwch os gwelwch yn dda. Darllenir y darlleniad cyntaf gan Mrs Ustus Jefford, Barnwr Llywyddol Cymru:*

Darlleniad o drydedd pennod Llyfr Cyntaf y Brenhinoedd, yn dechrau yn yr unfed adnod ar bymtheg.

Yna, dwy wraig o buteiniaid a ddaethant at y brenin, ac a safasant ger ei fron ef. A'r naill wraig a ddywedodd, "O fy arglwydd, myfi a'r wraig hon oeddem yn trigo yn yr un tŷ; a mi a esgorais yn y tŷ gyda hi. Ac ar y trydydd dydd wedi esgor ohonof fi, yr esgorodd y wraig hon hefyd; ac yr oeddem ni ynghyd, heb arall yn y tŷ gyda ni, ond nyni ein dwy oedd yn y tŷ. A mab y wraig hon a fu farw liw nos; oherwydd hi a orweddodd arno ef. A hi a gododd yng nghanol nos, ac a gymerodd fy mab i o'm hymyl, tra yr ydoedd dy lawforwyn yn cysgu, ac a'i gosododd efo yn ei mynwes hi, a'i mab marw hi a osododd hi yn fy mynwes innau. A phan godais i y bore i beri i'm mab sugno, wele, marw oedd efe; ac wedi i mi ddal arno y bore, wele, nid fy mab i, yr hwn a esgoraswn i, ydoedd efe". A'r wraig arall a ddywedodd, "Nage; eithr fy mab i yw y byw, a'th fab dithau yw y marw". A hon a ddywedodd, "Nage; eithr dy fab di yw y marw, a'm mab i yw y byw". Fel hyn y llefarasant o flaen y brenin. Yna y dywedodd y brenin, "Hon sydd yn dywedyd, 'Dyma fy mab i sydd fyw, a'th fab dithau yw y marw': a hon acw sydd yn dywedyd, 'Nage; eithr dy fab di yw y marw, a'm mab innau yw y byw'". A dywedodd y brenin, "Dygwch i mi gleddyf". A hwy a ddygasant gleddyf o flaen y brenin. A'r brenin a ddywedodd, "Rhennwch y bachgen byw yn ddau, a rhoddwch yr hanner i'r naill, a'r hanner i'r llall". Yna y dywedodd y wraig bioedd y mab byw wrth y brenin, (canys ei hymysgaroedd a gynesasai wrth ei mab,) ac a lefarodd, "O fy arglwydd, rhoddwch iddi hi y bachgen byw, ac na ledwch ef ddim!": ond y llall a ddywedodd, "Na fydded eiddof fi na thithau, eithr rhennwch ef". Yna yr atebodd y brenin, ac y dywedodd, "Rhoddwch y bachgen byw iddi hi, ac na leddwch ef ddim: dyma ei fam ef". A holl Israel a glywsant y fam a farnasai y brenin; a hwy a ofnasant y brenin: canys gwelsant fod doethineb Duw ynddo ef i wneuthur barn.

1 Brenhinoedd 3. 16-28

Dyma air yr Arglwydd.

Pawb **Diolch a fo i Dduw.**

‡ *Arhoswch ar eich eistedd tra bod y côr yn canu'r salm gan apwyntiedig:*

Agorwch i mi byrth cyfianwnder:
af i mewn iddynt a chlodforaf yr Arglwydd:

Dyma borth yr Arglwydd:
y rhai cyfiawn a ânt i mewn iddo.

Clodforaf di oherwydd i ti fy ngwrando:
a'th fod yn iachawdwriaeth i mi.

Y maen a wrthododd yr adeiladwyr:
a aeth yn ben i'r gongl.

O'r Arglwydd y death hyn:
hyn oedd ryfedd yn ein golwg ni.

Dyma y dydd a wnaeth yr Arglwydd:
gorfoleddwn a llawenychwn ynddo.

Atolwg Arglwydd achub yn awr:
atolwg Arglwydd pâr yn awr lwyddiant.

Bendigedig yw a ddél yn enw yr Arglwydd:
bendithiasom chwi o dŷ yr Arglwydd.

Duw yw yr Arglwydd yr hwn a lewyrchodd i ni:
Rhwymwch yr aberth â rhaffau hyd wrth gyrn yr allor.

Fy Nuw ydwyt ti a mi a'th glodforaf:
dyrchafaf di fy Nuw.

Clodforwch yr Arglwydd canys da yw:
Oherwydd yn dragywydd y pery ei drugaredd ef.

‡ *Sefyll.*

Gogoniant i'r Tad, ac i'r Mab:
ac i'r Ysbryd Glân;

Megis yr oedd yn y dechrau, y mae'r awr hon, ac y bydd yn wastad:
yn oes oesoedd. Amen.

‡ *Eisteddwch os gwelwch yn dda. Darllenir yr ail ddarlleniad gan Y Gwir Anrhydeddus y Fonesig Sue Carr, Arglwyddes Brif Ustus Cymru a Lloegr:*

Darlleniad o unfed bennod ar hugain yr Efengyl yn ôl Sant Mathew, yn dechrau yn y drydydd adnod ar ddeg ar hugain.

‘Gwrandewch ar stori arall: Roedd rhyw ddyn a thir ganddo wedi plannu gwinllan. Cododd ffens o'i chwmpas, cloddio lle i wasgu'r sudd o'r grawnwin ac adeiladu tŵr i'w gwyllo. Yna gosododd y winllan ar rent i rhyw ffermwyr cyn mynd i ffwrdd ar daith bell. Pan oedd hi'n amser casglu'r grawnwin, anfonodd weision at y tenantiaid i nôl ei siâr o'r ffrwyth. Ond dyma'r tenantiaid yn gafael yn y gweision, ac yn ymosod ar un, lladd un arall, a llabyddio un arall gyda cherrig. Felly dyma'r dyn yn anfon gweision eraill, mwy ohonyn nhw y tro yma, ond dyma'r tenantiaid yn gwneud yr un peth i'r rheiny. Yn y diwedd dyma'r dyn yn anfon ei fab atyn nhw. “Byddan nhw'n parchu fy mab i,” meddai. Ond pan welodd y tenantiaid y mab, dyma nhw'n dweud wrth ei gilydd: “Hwn sy'n mynd i etifeddu'r winllan. Os lladdwn ni hwn cawn ni'r winllan.” Felly dyma nhw'n gafael ynndo, a'i daflu allan o'r winllan a'i ladd. Felly, beth fydd y dyn biau'r winllan yn ei wneud i'r tenantiaid pan ddaw yn ôl?” Dyma nhw'n ateb, ‘Bydd yn lladd y cnafon drwg! Wedyn bydd yn gosod y winllan ar rent i denantiaid newydd, fydd yn barod i roi ei siâr o'r ffrwythau iddo bob tymor.’ Dywedodd Iesu wrthyn nhw, ‘Ydych chi wedi darllen yn yr ysgrifau sanctaidd erioed:

‘Mae'r garreg wrthododd yr adeiladwyr
wedi cael ei gwneud yn garreg sylfaen;
yr Arglwydd wnaeth hyn,
ac mae'r peth yn rhyfeddol yn ein golwg.’?

Hyn dw i'n ei ddweud: fod y breintiau o fod dan deyrnasiad Duw yn cael eu cymryd oddi arnoch chi a'u rhoi i bobl fydd yn dangos ei ffrwyth yn eu bywydau. Bydd pwy bynnag sy'n baglu ar y garreg yma yn dryllio'n ddarnau, a bydd pwy bynnag mae'r garreg yn syrthio arno yn cael ei fathru.’

Pan glywodd y prif offeiriaid a'r Phariseaid straeon Iesu, roedden nhw'n gwybod yn iawn ei fod yn sôn amdany'n nhw. Roedden nhw eisiau ei arestio, ond roedd ofn y dyrfa arnyn nhw, am fod y bobl yn credu ei fod yn broffwyd.

Mathew 21. 33-46

Dyma air yr Arglwydd.

Pawb **Diolch a fo i Dduw.**

‡ *Sefwch ar gyfer yr emyn:*

The image shows a musical score for the hymn 'Calon lân'. It consists of four staves of music in G major (one sharp). The first three staves are the main melody, and the fourth staff is a guitar accompaniment labeled 'Cytgan'. The melody is written in treble clef and consists of 16 measures. The lyrics are printed below the staves.

Nid wy'n gofyn bywyd moethus,
Aur y byd na'I berlau mân:
Gofyn wyf am galon hapus,
Calon onest, calon lân.
*Calon lân yn llawn daioni,
Tecach yw na'r lili dlos:
Dim ond calon lân all ganu
Canu'r dydd a chanu'r nos.*

Pe dymunwn olud bydol,
Hedyn buan ganddo sydd;
Golud calon lân, rinweddol,
Yn dwyn bythol elw fydd.
*Calon lân yn llawn daioni,
Tecach yw na'r lili dlos:
Dim ond calon lân all ganu
Canu'r dydd a chanu'r nos.*

Geiriau: John Hughes (1873-1932)

Hwyr a bore fy nymuniad
Gwyd I'r nef ar adain cân
Ar I Dduw, er mwyn fy Ngheidwad,
Roddi I mi galon lân.
*Calon lân yn llawn daioni,
Tecach yw na'r lili dlos:
Dim ond calon lân all ganu
Canu'r dydd a chanu'r nos.*

Cerddoriaeth: CALON LÂN
John Hughes (1872-1914)

‡ *Eisteddwch ar gyfer y Bregeth a draddodir gan y Tra Pharchedig Richard Peers, Deon Llandaf.*

‡ *Cenir yr anthem gan y Côr:*

Ofn yr Arglwydd yw dechrau doethineb,
ac adnabod y Sanctaidd yw deall.
Oherwydd trwof fi y cynyddu dy ddyddiau,
ac yr ychwanegir blynyddoedd at dy fywyd.
Gwyn ei fyd y sawl a gafodd ddoethineb,
a'r un sy'n berchen deall.
Y mae'n fwy gwerthfawr na gemau,
ac nid yw dim a ddymuni yn debyg iddi.
Ymddiried yn llwyr yn yr Arglwydd,
a phaid â dibynnu ar dy ddeall dy hun.
Cydnabyddu ef yn dy holl ffyrdd,
bydd ef yn sicr o gadw dy lwybrau'n union.

Geiriau: Diharebion 3 a 9

Cerddoriaeth: Athrawiaeth Doethineb
William Mathias (1934-92)

‡ *Arhoswch ar eich eistedd neu benlinio ar gyfer gweddi'r eiriolaeth a arweinir gan Rhys James Ysw., Uchel Siryf De Morgannwg:*

Gweddiwn i Dduw ein Tad mewn ffydd, gobaith a chariad.

Gadewch i ni weddio dros ein gwlad, dros ei hundod, heddwch a chytgord; dros Charles ein Brenin, aelodau'r Teulu Brenhinol, a thros bawb sy'n gyfrifol am orchymyn cyfiawnder, y gwir ac uniondeb wrth lunio llwybr ein bywydau o ddydd i ddydd.

Arglwydd, yn dy drugaredd

Pawb **Gwrando ein gweddi.**

Gadewch i ni gofio am ddioddefwyr trosedd, a'r rhai sy'n troseddu. Gadewch i ni weddio dros y rhai sy'n cael eu cadw yn y ddalfa, sy'n aros am wrandawriad gerbron llys neu sydd ar remand; a thros gymunedau sy'n byw mewn pryder neu ofn, a gweddiwn am bopeth sy'n annog cydlyniant cymdeithasol, gwydnwch a datblygu lles.

Arglwydd, yn dy drugaredd

Pawb **Gwrando ein gweddi.**

Gadewch i ni weddio dros bawb sy'n gweinyddu cyfiawnder yn y deyrnas hon; dros yr holl farnwyr a barnwriaeth y tribiwnlysoedd, ynadon, rheithwyr ac ombwdsmyrn, dros glercod a swyddogion llysoedd, dros fargyfreithwyr, cyfreithwyr, gweithredwyr siartredig cyfreithiol, a phawb sydd â'r gyfraith yn broffesiwn iddynt. Gweddiwn dros yr heddlu, y lluoedd arfog, y gwasanaethau prawf a'r carchardai, a'r rhai sy'n cynnal trefn yn ein gwlad; fel bo'n cenedl yn gallu byw mewn heddwch a diogelwch.

Arglwydd, yn dy drugaredd

Pawb **Gwrando ein gweddi.**

Gadewch i ni weddio dros ein hawdurdodaethau ar y cyd yn y Deyrnas Unedig ac yng ngwledydd y Gymanwlad; a thros bawb sy'n creu ac yn gweinyddu'r gyfraith mewn gwledydd a chyrrff a lywodraethir gan Reolaeth y Gyfraith.

Arglwydd, yn dy drugaredd

Pawb **Gwrando ein gweddi.**

O Dduw, barnwr teg a thosturiol y ddynolryw, erfyniwn arnat i edrych i lawr o'r nef ar dy weision hyn, sydd wedi eu penodi trwy dy ras i weinyddu cyfiawnder yn y wlad hon. Rho iddynt dy Ysbryd Glân, Ysbryd uniondeb, Ysbryd dirnadaeth ac Ysbryd cariad, fel eu bod yn eofn, yn synhwyrol, ac yn drugarog wrth gyflawni eu dyletswyddau cysegredig, er budd dy bobl a gogoniant dy enw; trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

Pawb **Amen.**

‡ *Y Deon yn gweddïo::*

Hollalluog a thragwyddol Dduw, sydd, â'th air yn unig yn goleuo llwybrau cyfiawnder, anfon i lawr ar ein barnwyr ysbryd iachusol dy ras; fel y byddant yn dy wir foddhau, tywallt arnynt ddyfal wlith dy fendith. Caniatâ, hyn, O Arglwydd, er anrhydedd ein Heiriolwr a'n Cyfryngwr, Iesu Grist.

Pawb Amen.

‡ *Cyd-adroddwn Weddi'r Ymroddiad:*

Arglwydd Dduw, ynddo ef yr ydym yn byw, ac yn symud ac yn bod, yr wyt wedi ein gwneud ar gyfer ti dy hun, ac mae ein calonnau yn anniddig nes iddynt orffwys ynot ti. Offrymwn i ti y cyfan sydd gennym; ein meddyliau a'n dyheadau, ein geiriau a'n gweithredoedd. Rho i ni galon bur, a nerth penderfyniad, fel na fydd i ddim ein hatal rhag deall dy ewyllys ac na fydd i ddim ein hatal rhag ei weithredu; fel ein bod trwy dy oleuni di yn gweld goleuni, ac yn dy wasanaeth, yn darganfod rhyddid perffaith, trwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

‡ *Arhoswch ar eich eistedd tra bod y côr yn canu Anthem:*

Bu dda gennyf eistedd dan ei gysgod ef,
a'i ffrwyth oedd felys i'm genau.
Efe a'm dug i'r gwindy,
a'i faner dros of ydoedd gariad.

Geiriau: Caniad Solomon 2. 3b-4

Cerddoriaeth: Edward Bairstow (1874-1946)

‡ *Sefwch os gwelwch yn dda i ganu'r emyn:*



Guide me, O thou great Redeemer,
pilgrim through this barren land;
I am weak, but thou art mighty,
hold me with thy powerful hand:
bread of heaven,
feed me now and evermore.

Open now the crystal fountain
whence the healing stream doth flow;
let the fiery, cloudy pillar
lead me all my journey through:
strong deliverer,
be thou still my strength and shield.

When I tread the verge of Jordan
bid my anxious fears subside;
death of death, and hell's destruction,
land me safe on Canaan's side:
songs of praises
I will ever give to thee.

Geiriau: *Arghwydd arwain drwy'r anialwch*
William Williams (1717-1791), cy Peter Williams (1727-1796)
neu John Williams (1754-1828)

Cerddoriaeth: CWM RHONDDA
John Hughes (1873-1932)

‡ *Arhoswch ar eich traed tra bod y Deon yn traddodi'r Fendith:*

Ewch allan i'r byd mewn heddwch; Byddwch wrol; Daliwch yn dynn wrth yr hyn sydd dda; Na foed i chi dalu drwg am ddrwg i neb Cryfhewch y gwangalon; cefnogwch y gwan; Helpwch y cystuddiedig; anrhydeddwch bawb; Carwch a gwasanaethwch yr Arglwydd, gan ymlawenhau yn nerth yr Ysbryd Glân;

a ✠ bendith Duw hollalluog, y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân a fo yn eich plith ac a drigo gyda chwiyn wastad.

Pawb **Amen**

‡ *Cyd-ganwn yr Anthemau Cenedlaethol:*

Mae hen wlad fy Nhadau
Yn annwyl i mi,
Gwlad beirdd a chantorion
Enwogion o fri;
Ei gwrol ryfelwyr
Gwladgarwyr tra mād
Dros ryddid collasant eu gwaed:
Gwlad, Gwlad, pleidiol wyf i'm gwlad
Tra'r môr yn fur i'r bur hoff bau
O bydded i'r hen iaith barhau

God save our gracious King!
Long live our noble King!
God save the King!
Send him victorious,
happy and glorious,
Long to reign over us,
God save the King!

‡ *Arhoswch ar eich traed wrth i'r Orymdaith adael yr Eglwys Gadeiriol.*

Unawd ar yr Organ

Preliwd a Ffiwg yn D fwyaf, BWV 532ii

Johann Sebastian Bach (1685-1750)



Copyright Acknowledgements

Llyfr Gweddi Gyffredin © Yr Eglwys yng Nghymru 1984. Eiddo'r Goron yw Llyfr Gweddi Gyffredin 1662 | Beibl Cymraeg Newydd Diwygiedig hawlfraint © Cymdeithas y Beibl 2004 © British and Foreign Bible Society 2004 | Atgynhychir yr emynau dan drwydded rhif 829936.